Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Grŵp Cynefin – L029

Medi 2017

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Is-adran Datblygu a Rheoleiddio'r Sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@wales.gsi.gov.uk

ISBN Digidol 978-1-78859-059-4
Hawlfraint y Goron 2017

# Proffil

Mae Grŵp Cynefin yn darparu 4,552 o gartrefi yn ardaloedd saith awdurdod lleol. Mae gan y grŵp dri is-gwmni: Canllaw (Eryri) Cyfyngedig, Cywaith Cyfyngedig a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych.

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y grŵp yw:

- Grŵp Cynefin, sy'n darparu 3,201 o gartrefi anghenion cyffredinol a 436 o dai â chymorth, gan gynnwys tri chynllun gofal ychwanegol ac 915 o gartrefi ar gyfer y farchnad tai canolradd;
- Canllaw (Eryri) Cyfyngedig, sy'n darparu gwasanaethau gofal a thrwsio i bobl hŷn yn Ynys Môn a Gwynedd.

Mae Grŵp Cynefin wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddo reolau elusennol. Mae Canllaw yn elusen gofrestredig gyfyngedig drwy warant.

Mae Cywaith Cyfyngedig yn gwmni cyfyngedig drwy warant, sy'n datblygu asedau cymunedol at amrywiaeth o ddibenion cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol ac yn hwyluso gwaith adfywio lleol. Mae'n anweithredol ar hyn o bryd.

Sefydlwyd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych ar 1 Gorffennaf 2015 ac mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant. Mae'n elusen gofrestredig sy'n darparu gwasanaethau gofal a thrwsio yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Mae gan Grŵp Cynefin gyfran ecwiti ym Mhartneriaeth Tai Cymru sy’n gyd-fenter â thair cymdeithas tai arall.

## Data Ariannol Allweddol

| | Data Hanesyddol | | Terfyn Cyfamod | Cyfartaledd ar gyfer y Sector |
|---|---|---|---|---|
| | **2014/15 Wedi'i ailddatgan** | **2015/16** | | **2015/16** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 23.5% | 17.6% | dd/g | 19.1% |
| Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 12.0% | 5.5% | dd/g | 8.7% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 1.9% | 2.3% | dd/g | 1.6% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 54% | 55% | dd/g | 74% |
| Geriad | 51% | 47% | 60% | 68% |
| Sicrwydd llog | 123% | 107% | 90% | 153% |
| Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r grŵp gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi ar hyn o bryd.<br>Mae terfyn cyfamod y sicrwydd llog wedi'i ostwng dros dro o 100% i 90% tan fis Mawrth 2018.<br>Mae'r lleihad yn y gwarged gweithredu a'r gwarged o 2014/15 i 2015/16 yn deillio o gynnydd yn niffyg y gronfa bensiwn. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Medi 2017

**Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.